

# Gwybodaeth ategol

| | |
|---|---|
| | Capita ydym ni. Rydym yn cynnal asesiadau Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). |
|  | Mae anfon gwybodaeth gyda'ch ffurflen gais yn gallu helpu ein gweithiwr iechyd proffesiynol i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch. |
|  | Ceisiwch anfon cymaint o wybodaeth ag y gallwch ar gychwyn eich cais. Bydd angen i hwn gael ei bostio atom. |
|  | Anfonwch unrhyw wybodaeth sy'n esbonio sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch. |
|  | Nid oes angen i'r wybodaeth fod yn feddygol. |

| | |
|---|---|
|  | Mae gwybodaeth gan y bobl sy’n eich hadnabod orau yn bwysig iawn. |
|  | Gallwch anfon gwybodaeth gan:<br>• Aelodau o’r teulu<br>• Ffrindiau<br>• Gofalwyr<br>• Gweithwyr cymorth |
|  | Anfonwch wybodaeth sydd gennych eisoes yn unig. |
|   | Peidiwch â gofyn wrth eich Meddyg Teulu (GP) am wybodaeth os oes angen i chi dalu amdano. |
|   | Peidiwch a disgwyl am fwy o wybodaeth cyn anfon eich ffurflen gais yn ôl. |
|  | Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer pawb sy’n eich helpu ar eich ffurflen gais.<br><br>Rhowch y rhain mewn trefn o bwy sy’n eich hadnabod orau. Nid oes angen iddynt fod yn eich GP, gall fod yn unrhyw un. |
|  | Os oes angen mwy o wybodaeth arnom, efallai y byddwn yn cysylltu â'r pobl sydd ar eich ffurflen. |




Capita – Confidential INTERNAL

| | |
|---|---|
|  | **Gwybodaeth sydd yn ddefnyddiol i ni yw:**<br><br>• Rhestr o’r meddyginiaethau yr ydych yn eu cymryd |
|  | • Adroddiad neu gynllun gofal gan:<br>    ○ GP neu ymgynghorydd<br>    ○ Nyrs seiciatryddol cymunedol (CPN)<br>    ○ Therapydd galwedigaethol<br>    ○ Gweithiwr cymdeithasol<br>    ○ Tîm cefnogaeth Anableddau Dysgu |
|  | • Datganiadau gan ofalwyr neu aelodau’r teulu, megis dyddiadur gofalwr |
|  | • Llythyr am eich cyflwr neu ddiagnosis gan<br>    ○ eich ymgynghorydd(wyr)<br>    ○ yr ysbyty sy’n eich rhyddhau<br>    ○ clinig cleifion allanol |



Capita – Confidential INTERNAL

**Dyma ychydig o esiamplau o'r wybodaeth na ddylech eu hanfon.**

| | |
|---|---|
| ❌  | **Nid oes angen i chi anfon**<br>• Cardiau neu lythyrau apwyntiadau |
| ❌  | • Llythyrau derbyn i'r ysbyty |
| ❌  | • Taflenni ffeithiol am eich cyflwr, diagnosis neu'r llythyrau rydych chi'n eu cymryd |
| ❌  | • Gwybodaeth am brofion rydych chi am eu cael |
| ❌  | • Ticedi trên neu fwc a mapiau cyfeiriad i apwyntiadau rydych chi wedi'u mynychu |
| ❌ Department for Work & Pensions | • Gwybodaeth rydych chi eisoes wedi'i hanfon at y DWP am PIP |
| ❌  | **Cofiwch, peidiwch â thalu am unrhyw wybodaeth meddygol.** |

# Sut i gysylltu â ni

| | |
|---|---|
|   | Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich asesiad, cysylltwch â ni. |
|   | Rydym ar agor o 8am i 8pm, dydd Llun i ddydd Gwener a 9am i 5pm dydd Sadwrn. |
|  | Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan. Bydd rhaid iddynt wybod eich Rhif Yswiriant Gwladol. |
|  | Ffoniwch ni am ddim ar **0808 072 0221.** |
|  | Os na allwch chi glywed neu siarad ar y ffôn, gallwch ddefnyddio NGT neu Relay UK: **18001** yna **0800 072 0221**. |
|  | Os ydych chi'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gallwch ddefnyddio'r **Gwasanaeth Cyfnewid Fideo.**<br><br>Teipiwch y ddolen hon i'ch porwr rhyngrwyd: https://haas.capita.co.uk/cy/cysylltwch-ni |



Capita – Confidential INTERNAL

| | |
|---|---|
| | Sgroliwch i lawr i **'Gwasanaeth Cyfnewid Fideo'** a chliciwch ar y ddolen. |
|  | Gallwch ysgrifennu atom hefyd:<br><br>**Capita**<br>**PO Box 393**<br>**Darlington**<br>**DL1 9UL** |
|  | Neu e-bostiwch ni: **contactus@capita-pip.co.uk** |

Am fwy o wybodaeth am PIP, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read Personal Independence Payment.**